| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **29 CHWEFROR 2024** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2024/25** |
| PWRPAS: | **I gyflwyno'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cyllideb 2024/25 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

1.2 Cymeradwywyd y gyllideb gan y Pwyllgor Pensiynau yn eu cyfarfod ar 22ain o Ionawr 2024.

## 2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

| | **Terfynol 2023/24 £** | **Chwyddiant £** | **Addasiadau* £** | **Cyllideb 2024/25 £** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Gweithwyr | 897,160 | 65,510 | 4,700 | 967,370 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 1,440 | 0 | 0 | 1,440 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 278,940 | 19,280 | 28,600 | 326,820 |
| Gwasanaethau Canolog | 132,200 | 6,610 | 0 | 138,810 |
| **Cyfanswm** | **1,309,740** | **91,400** | **33,300** | **1,434,440** |

* Mae'r addasiadau'n cynnwys incrementau staff.

2.1 <u>Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth</u>

Mae'r gyllideb ar gyfer yr adain yma'n cynnwys 22 swydd llawn amser (3 ohonynt yn swyddi dros dro) a 2 swydd rhan amser.

2.2 <u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>

Mae'r gyllideb yma'n cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a chostau meddalwedd. Mae'r cynnydd yn y gyllideb oherwydd y cytundeb systemau. Mae'r cytundeb systemau yn cael ei adnewyddu yn ystod y flwyddyn ac mae'r contract newydd wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau.

2.3 <u>Gwasanaethau Canolog</u>

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau y Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

## 3. UNED BUDDSODDI

| | Terfynol 2023/24 £ | Chwyddiant £ | Addasiad £ | Cyllideb 2024/25 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 132,460 | 6,620 | 0 | 139,080 |

3.1 Gweithwyr

Mae'r adain yma wedi'i leoli o fewn y brif uned Cyllid Canolog, felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi'i rannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (90%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (85%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (65%)

## 4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

4.1 Nid oes cyllideb yn cael ei osod ar y pwynt yma gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.